**Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod Bwrdd S4C**
**Cyfarfod Rhif 455**
**17eg Chwefror 2022 - Cyfarfod yn Yr Egin, 09.30**

**Presennol:**

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau Anweithredol y Bwrdd:** | Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| | Guto Bebb | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Adele Gritten | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Chris Jones | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Denise Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) – ar Zoom |
| **Aelodau Gweithredol:** | Siân Doyle | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) – ag eithrio eitemau 5 a 6 |
| | Geraint Evans | (Cyfarwyddwr Cynnwys) – ag eithrio eitemau 5 a 6 |
| **Staff S4C oedd yn bresennol:** | Geraint Pugh | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Rhidian Dafydd | (Cyfarwyddwr Prosiectau) – ar gyfer eitem 4 |
| | Catrin Whitmore | (Pennaeth Adnoddau Dynol) – ar gyfer eitemau 5 i 7, ar Zoom |
| | Bethan C Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |

| **COFNODION** | | |
|---|---|---|
| | **MATERION SEFYDLOG:** | |
| 1. | **Croeso a Datganiadau Diddordeb**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb penodol ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan hynny. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau. Nodwyd serch hynny bod aelodau wedi nodi diddordebau parhaol mewn perthynas â'u haelodaeth o'r Bwrdd, ac fe atgoffodd y Cadeirydd bawb o'r angen i ddiweddaru eu datganiadau buddiant. | |
| 2. | **Adroddiad y Cadeirydd**<br>Adroddwyd fod y DCMS yn parhau gyda threfniadau i benodi Aelodau Anweithredol newydd<br><br>Byddai RhW yn trefnu sgyrsiau unigol dros y mis nesaf gydag aelodau'r Bwrdd fel rhan o'r broses werthuso flynyddol, ac fe holodd i bawb o'r aelodau anweithredol gwblhau'r ffurflenni hunan-arfarnu o flaen llaw. | **RhW** |
| 3. | **Adroddiad y Prif Weithredwr**<br>Cyflwynodd SD ei hadroddiad gan gyfeirio at y materion isod.<br>Adroddwyd fod cyfarfodydd buddiol iawn wedi digwydd ymysg aelodau'r Tîm Rheoli yn Llangrannog i drafod y cynllun gweithredu ar gyfer y Strategaeth newydd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mewn perthynas â ffrydiau gwaith y cynllun gweithredu, mae bwriad gofyn am gyngor a chyfraniadau arbenigol gan aelodau'r Bwrdd gyda'r gwahanol feysydd. Byddai SD yn holi AdG i helpu gyda data, tra bydd DL yn helpu o ran y brandio.<br><br>Adroddodd SD fod gwaith cefndirol yn mynd yn ei flaen ar y strategaeth llwyfannau, a gobeithir y bydd modd tynnu popeth at ei gilydd a gwneud un datganiad mawr i gyd-fynd gyda'r penblwydd yn 40 ym mis Tachwedd.<br><br>Nodwyd hefyd fod trafodaethau yn digwydd rhwng S4C a'r BBC o ran datblygu'r iPlayer, ac yn arbennig i ganiatáu i S4C gynnwys bocsets arno, gan negodi hawliau hirdymor yn yr un modd a hawliau iPlayer.<br><br>Cafwyd trafodaeth am y ffaith nad ydy rhai rhaglenni yn ymddangos ar Clic yn ddigon buan ar ôl y darllediad cyntaf, a nododd GE ei fod yn ceisio cael gwell gwasanaeth.<br><br>Holodd CJ ynglŷn â diflaniad yr *Young Audiences Access Content Fund* a gofynnodd, o ystyried pwysigrwydd hwn i ni, os oedd unrhyw arian tebyg arall ar gael. Nododd SD fod CHR yn edrych ar hyn ac wedi nodi fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi crybwyll y byddai arian arall ar gael. Ychwanegodd GE fod peth arian o Lywodraeth Cymru ar gael ar gyfer cynnwys penodol na fydden ni'n gallu'u ddarparu fel arall.<br><br>Awgrymodd CJ fod 'na gymaint o bwyslais ar ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r dosbarth, ond eto'i gyd doedd dim cydweithio gyda Llywodraeth Cymru yn hyn o beth. Nododd SD ei bod am gael trafodaethau gyda Jeremy Miles AS, y Gweinidog Addysg, a bod hefyd trafodaethau efo Jeremy Evas a Bethan Webb o ran Cymraeg 2050 a sut y gall S4C gyfrannu i'r cynlluniau.<br><br>**PENDERFYNIADAU:**<br>**Y byddai'r Bwrdd yn trafod dyfodol ffi'r drwydded yn ystod y cwrdd i ffwrdd ar 28 Ebrill 2022.** | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**GP** |
| **4.** | **Datblygu Strategaeth 2022–27 a'r Cynllun Gweithredu**<br>Cyflwynwyd drafft diwygiedig o Strategaeth 2022–27<br><br>Roedd CJ yn awyddus i symleiddio'r iaith, i'w wneud yn hawdd i bawb ei ddeall.<br><br>Awgrymodd GB, mewn perthynas â meithrin talent, fod angen i ni a'r cwmnïau cynhyrchu fod yn ymwybodol iawn fod y Gymraeg yn bwysig, nid yn unig o flaen y camera ond hefyd y tu ôl, gan sicrhau fod staff yn siarad Cymraeg wrth wneud eu gwaith. Roedd GB hefyd yn awyddus i gwtogi ar yr arfer o gyfieithu dramâu o'r Saesneg i'r Gymraeg, a blaenoriaethu cael cynnwys gwreiddiol Gymreig ar y sgrin.<br><br>Awgrymodd DL fod angen cyfeirio yn y ddogfen at sut bydd y neges ynghylch y Strategaeth newydd yn cael ei chyfathrebu. Cytunwyd bod amlinellu cynllun cyfathrebu'n hanfodol ar y cam nesaf wedi i'r Bwrdd gymeradwyo'r Strategaeth.<br><br>Cwestiynodd RhW faint mae S4C yn ei 'creu' ei hun, ac a oedd y defnydd o'r gair yn briodol oddi fewn i'r Strategaeth yn y cyd-destun hwn. Roedd hefyd yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | awyddus i S4C fod yn glir ein bod yn croesawu siaradwyr Cymraeg o bob safon, ac estyn allan i'r rhai sy'n teimlo nad yw eu Cymraeg yn ddigon cywir.<br><br>Er mwyn gwireddu'r strategaeth, byddai angen bod yn glir ynghylch sut fyddai llwyddiant yn edrych. Roedd SD yn awyddus i S4C ddechrau meddwl yn wahanol yn fewnol, a symud i ffwrdd o'r meddylfryd llinol-yn-gyntaf. Byddai angen diwygio rhai gweithdrefnau mewnol er mwyn caniatáu hyn, ac roedd EM a ShW yn ymgymryd â'r broses.<br><br>Cafwyd cais am gael gwell dealltwriaeth o brosesau *crisis management* S4C. Byddai EM yn ysgrifennu adroddiad ar y pwnc i'r Bwrdd. | |
| | **Penderfyniadau:** | |
| | **I wahodd Andrew Canham i un o gyfarfodydd y Bwrdd i esbonio'r gwaith ar ddatblygu Clic 2.0.** | **GP** |
| | **Y bydd EM yn drafftio adroddiad i'r Bwrdd ar brosesau *crisis management* S4C.** | **EM** |
| | [gadawodd RhD, EM a GE ac ymunodd CW efo'r cyfarfod] | |
| **5.** | **Penodi Cyfarwyddwr Cynnwys**<br>Yn dilyn proses recriwtio allanol, cyflwynodd SD argymhelliad bod y Bwrdd yn cymeradwyo penodiad Llinos Griffin-Williams fel Prif Swyddog Cynnwys. Roedd RhW wedi gwasanaethu ar y panel cyfweld, ac fe gadarnhaodd ei fod yn cefnogi'r argymhelliad.<br><br>Fel rhan o'r swydd-ddisgrifiad, nodwyd y byddai'r unigolion a benodir hefyd yn ymuno â'r Bwrdd Unedol fel aelod gweithredol, gan gymryd lle GE. Holwyd felly i'r Bwrdd gymeradwyo'r penodiad hwnnw hefyd. | |
| | **Penderfyniad:**<br>**Penodwyd Llinos Griffin-Williams fel Prif Swyddog Cynnwys ar y telerau a drafodwyd gyda'r Bwrdd.** | |
| | **I benodi Llinos Griffin-Williams yn aelod gweithredol o'r Bwrdd.** | **CW** |
| **6.** | **Cyfansoddiad y Tîm Rheoli**<br>Amlinellodd SD ei dymuniadau ar gyfer edrych o'r newydd ar gyfansoddiad y Tîm Rheoli, er mwyn medru gwell alinio blaenoriaethau, a sicrhau bod pawb â chyfrifoldebau clir ac o'r un statws.<br><br>Roedd penodiad y Prif Swyddog Cynnwys yn un cam ar y daith i ddiwygio strwythur y Tîm Rheoli. Awgrymwyd hefyd y dylid mynd ati i greu swydd Prif Swyddog Cyhoeddi.<br><br>Byddai gweddill y broses i ddiwygio'r strwythur yn digwydd yn raddol dros gyfnod o chwe mis pan fydd yr amgylchiadau'n caniatáu. | |
| | **Penderfyniad:**<br>**I gymeradwyo creu swydd newydd y Prif Swyddog Cyhoeddi ar y Tîm Rheoli.** | **CW** |
| | **I gymeradwyo'r strwythur newydd arfaethedig ar gyfer y Tîm Rheoli, fyddai'n cael ei wireddu'n raddol dros y misoedd nesaf.** | **SD** |
| | [ail ymunodd EM a GE gyda'r cyfarfod] | |

| | | |
|---|---|---|
| **7.** | **Arolwg Staff**<br>Cyflwynodd CW ganlyniadau'r arolwg staff, a gynhaliwyd yn ystod Rhagfyr 2021.<br><br>Yn y dyfodol, bydd y cynllun datblygiad a hyfforddiant staff yn canolbwyntio ar y sgiliau rheini sydd ei angen i weithredu'r strategaeth, gan sicrhau hefyd fod ein sgiliau yn gyfredol – gan gynnwys ar gyfer rheolwyr. | |
| **8.** | **Adolygu Cylchoedd Gorchwyl y Pwyllgorau**<br>Cyflwynodd GP canlyniad o adolygiad o gylchoedd gorchwyl pwyllgorau'r Bwrdd. Ymysg yr argymhellion oedd:<br>• Trosi'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol yn un Archwilio a Risg traddodiadol, gan greu Pwyllgor Pobl a Thaliadau newydd;<br>• Bod yn glir ynghylch pwy yw'r aelodau, a phwy arall sy'n mynychu / arsylwi;<br>• Lleihau maint aelodaeth pwyllgorau cymaint â phosib er mwyn osgoi dyblygu aelodaeth rhwng y pwyllgorau;<br>• Gwneud hi'n glir bod modd i'r Bwrdd gyfethol aelodau anweithredol nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd Unedol i wasanaethu ar bwyllgor – yn unol â'r Rheolau Sefydlog, ac i sicrhau bod balans addas o sgiliau ar bob pwyllgor;<br>• Manylu pryd y mae'n briodol i Gadeirydd y Bwrdd fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y pwyllgorau, ac ym mha rinwedd (hynny yw fel aelod llawn, neu fel arsylwr);<br>• Ceisio categoreiddio'r cylchoedd gorchwyl cymaint â phosib yn ôl a yw'r pwyllgor yn craffu ac yn argymell i'r Bwrdd; yn ystyried gyda'r gallu i gymeradwyo ar ran y Bwrdd; neu yn derbyn adroddiadau er gwybodaeth, er mwyn iddynt allu cynnig cyngor i'r Bwrdd a'r Tîm Rheoli fel bo'n briodol.<br><br>Roedd yr adroddiad yn cynnwys cylchoedd gorchwyl arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Risg; y Panel Cwynion; y Pwyllgor Cynnwys; a'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau. Byddai angen ystyried cyfrifoldebau'r Pwyllgor Cyfathrebu ymhellach cyn i gylch gorchwyl arfaethedig ddod gerbron cyfarfod nesaf y Bwrdd.<br><br>**Penderfyniad:**<br>**Cymeradwywyd y cylchoedd gorchwyl arfaethedig.** | **GP** |
| **9.** | **Adborth holiaduron Pwyllgorau**<br>Rhwng 17 a 28 Ionawr 2022, gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd Unedol i gwblhau holiadur er mwyn cynnig adborth adeiladol ar drefniadau'r Bwrdd dros y flwyddyn adrodd ddiwethaf. Cyflwynodd GP adroddiad oedd yn crynhoi'r atebion a dderbyniwyd i'r holiadur hwnnw, yn ogystal â'r holiaduron ar wahân ar gyfer Pwyllgorau'r Bwrdd.<br><br>**Penderfyniad:**<br>**Y byddai crynodeb o adroddiad y Wifren Gwylwyr yn ymddangos ym mhapurau'r Bwrdd o hyn allan, gyda'r adroddiad llawn ar gael ar y 'Resource Centre' yn Diligent pe byddai aelodau am ei ddarllen.** | **BCW** |
| **10.** | **Cofnodion / Adroddiadau a Materion yn Codi**<br>Cymeradwywyd y cofnodion o gyfarfod Bwrdd mis Ionawr ac fe gyflwynwyd y cofnodion isod o'r pwyllgorau er gwybodaeth: | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Y Pwyllgor Cynnwys (19 Ionawr 2022); a'r<br>• Pwyllgor Cyfathrebu (02 Chwefror 2022).<br><br>Ni thrafodwyd unrhyw faterion oedd yn codi. | |
| **11.** | **Pwyntiau Gweithredu**<br><br>Cyflwynwyd diweddariad ar y pwyntiau gweithredu.<br><br>**Penderfyniad:**<br>**Y dylid adolygu fformat y ddogfen er mwyn gwneud hi'n gliriach beth sydd wedi newid o un cyfarfod i'r llall.** | **GP/BCW** |
| **12.** | **Unrhyw fater arall**<br>Nodwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn un rhithiol. | |

**Rhodri Williams, Cadeirydd y Bwrdd** **Dyddiad**

**<u>Dyddiad cyfarfod nesaf y Bwrdd</u>:**
**Bwrdd: 17 Mawrth, 2022**